Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Maer

## Disgrifiad o'r Swyddogaeth

1. **Atebolrwydd**
   - I'r Cyngor Llawn

2. **Diben y Swyddogaeth a Gweithgarwch**
   - **Gweithredu fel symbol o awdurdod democrataidd y Cyngor**
     - Fel pennaeth seremonïol y Cyngor, bod yn anwleidyddol a chynnal gwerthoedd democrataidd y Cyngor
     - Cynrychioli'r Cyngor mewn digwyddiadau dinesig a seremonïol
   - **Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor**
     - Llywyddu dros gyfarfodydd y Cyngor, er mwyn i'w waith gael ei gyflawni'n effeithlon
     - Sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor
   - **Cynnal a hybu Cyfansoddiad y Cyngor**
     - Sicrhau y glynir wrth y Cyfansoddiad, ac os bydd angen, dyfarnu ynglŷn â dehongliad y Cyfansoddiad.
   - **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a pherthynas ag eraill**
     - Hybu a chefnogi proses lywodraethu dda ar gyfer y Cyngor a'i faterion
     - Darparu arweinyddiaeth gymunedol a hybu dinasyddiaeth weithredol
     - Hybu a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw
     - Cefnogi a chynnal perthynas barchus, briodol ac effeithiol â gweithwyr cyflogedig y Cyngor
     - Glynu wrth God Ymarfer yr Aelodau, Protocol yr Aelodau / y Swyddogion, a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus
   - **Ymgysylltu â'r Gymuned**
     - Annog y cyhoedd i ymwneud â gwaith y Cyngor
     - Hybu'r Cyngor ym mhob rhan o'r gymuned
     - Annog pob rhan o'r gymuned i weithio ar y cyd, er mwyn gwella'r gymuned yn ei chyfanrwydd

3. **Gwerthoedd**

   Bod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol yn ei swydd gyhoeddus:

   - Bod yn agored ac yn dryloyw
   - Gonestrwydd ac uniondeb
   - Goddefgarwch a pharch
   - Cydraddoldeb a thegwch
   - Gwerthfawrogi gwahaniaethau diwylliannol
   - Cynaliadwyedd

# Dirprwy Faer

## Disgrifiad o'r Swyddogaeth

- Cyflawni dyletswyddau'r Maer / y Faeres yn ei absenoldeb / habsenoldeb
- Cynorthwyo'r Maes / y Faeres i gyflawni dyletswyddau penodol, fel y bo angen

* Mae'r Disgrifiad Swyddogaeth hwn yn disgrifio dyletswyddau Cadeirydd neu Lywydd y Cyngor Llawn neu'r Maer / y Faeres wrth iddo / iddi lywyddu dros Gyfarfodydd y Cyngor.